Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Cronfa Ffyniant Cyffredin y Deyrnas Gyfunol

## Cyfarwyddyd Mynegiant o Ddiddordeb

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO | POWERED BY LEVELLING UP

monmouthshire sir fynwy

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Gymraeg / This document is available in Welsh.

## Beth yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin?

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn rhan ganolog o agenda uchelgeisiol o rannu cyfoeth llywodraeth y DU gyda'r prif nod o feithrin balchder mewn lleoedd a chynyddu cyfleoedd bywyd ledled y DU. Y tair blaenoriaeth fuddsoddi yn y Gronfa Ffyniant Gyffredin yw cymuned a lle, cefnogi busnesau lleol a phobl a sgiliau.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Gronfa Ffyniant Gyffredin ym Mhrosbectws y Gronfa Ffyniant Gyffredin

## Galwad Agored i Sir Fynwy

Mae'r galwad agored i Sir Fynwy yn gyfle i sefydliadau amrywiol gyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb i gyflawni prosiectau yn ardal Sir Fynwy. Mae arian cyfalaf a refeniw ar gael i gefnogi prosiectau a all helpu i gryfhau cymunedau, cynyddu balchder mewn lle, a chyflawni budd economaidd trwy'r tri maes buddsoddi.

Mae cyllid ar gael i gefnogi costau prosiect a dynnwyd rhwng **1 Ebrill 2024** a **31 Mawrth 2025.** Nid oes unrhyw gyllid tu hwnt i'r cyfnod hwn yn cael ei gynnig na'i warantu.

Yr uchafswm o gyllid sydd ar gael i un prosiect yw £200,000.

## Sefydliadau Cymwys

- Gwasanaethau Awdurdod Lleol
- Sefydliadau Sector Preifat (i gyflawni prosiectau, nid i gefnogi datblygiad busnes)
- Sefydliadau Trydydd Sector neu Sector Gwirfoddol
- Sefydliadau Addysg Uwch
- Colegau Addysg Bellach
- Sectorau Cyhoeddus Eraill.

Rhaid i sefydliadau fod wedi bod mewn bodolaeth am o leiaf flwyddyn a gallu cyflwyno eu cyfrifon diweddaraf wedi eu harchwilio i fodloni'r gwiriadau twyll perthnasol.

# Proses Mynegi Diddordeb

Mae'r alwad agored am fynegiannau o ddiddordeb yn cael ei gynnal mewn dau gam.

**Cam 1 – Datganiad Cychwynnol o Ddiddordeb**

Yn agor ar **30ain Awst 2023** ac yn cau ar **13eg Hydref 2023**.

Cynigion amlinellol i gynnwys:

- Manylion y sefydliad arweiniol, unrhyw bartneriaid, a'r prif gyswllt
- Gweithgaredd/gwaith i gael ei gyflawni gan y prosiect
- Amcanion a chanlyniadau a fwriedir
- Cais ariannol ac ar beth y bydd yn cael ei wario

Bydd sefydliadau sydd wedi dangos yn ddigonol y gallant fodloni'r meini prawf a ddangosir yn yr adran 'Beth ellir ei ariannu?' yn cael eu gwahodd i gyflwyno mynegiant o ddiddordeb terfynol.

Gellir cyflwyno'r mynegiant o ddiddordeb cychwynnol trwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk/cy/ dewch-i-chwarae-rhan. Gellir gofyn am fformatau gwahanol o sharedprosperityfund@monmouthshire.gov.uk.

**Cam 2 – Datganiad o Ddiddordeb Terfynol**

Yn agor ar **20fed Hydref 2023** ac yn cau ar **24ain  Tachwedd 2023**.

Yn ystod y cam hwn bydd ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i gyflwyno cynllun prosiect mwy cynhwysfawr i'w ystyried ac yn cael y cyfle i ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon a ddynodwyd o'r mynegiant o ddiddordeb cychwynnol.

# Meysydd Ymyrraeth ar gyfer Sir Fynwy

Ceisir mynegiannau o ddiddordeb gan brosiectau a all dargedu'r ymyraethau canlynol, ar sail bylchau a ddynodwyd yn y cynllun buddsoddi presennol a'r portffolio o brosiectau.

Rydym yn chwilio am ddatganiadau o ddiddordeb gan brosiectau a all dargedu'r ymyriadau canlynol:

**Cymuned a Lle**

1. Cyllid ar gyfer gwelliannau i ganol trefi a strydoedd mawr, gan gynnwys hygyrchedd gwell i bobl anabl (W1)

2. Mesurau cymunedol i leihau costau byw, gan gynnwys drwy fesurau i wella effeithlonrwydd ynni, a brwydro yn erbyn tlodi tanwydd a newid yn yr hinsawdd (W13)

**Cefnogi Busnes Lleol**

1. Cefnogi Datrysiadau Doethach: Darparu cyngor arbenigol wedi'i deilwra, grantiau cyfatebol a hyfforddiant arweinyddiaeth i alluogi busnesau bach a chanolig gweithgynhyrchu i fabwysiadu datrysiadau technoleg ddigidol ddiwydiannol (W18)

2. Buddsoddi mewn seilwaith menter a phrosiectau datblygu safleoedd cyflogaeth/arloesedd (W22)

3. Buddsoddi mewn seilwaith cydnerthedd ac atebion seiliedig ar natur sy'n amddiffyn busnesau lleol ac ardaloedd cymunedol rhag peryglon naturiol gan gynnwys llifogydd ac erydu arfordirol (W33)

**Pobl a Sgiliau**

1. Cyrsiau sgiliau gwyrdd wedi'u targedu at sicrhau bod gennym y gweithlu medrus i gyflawni sero net y llywodraeth ac uchelgeisiau amgylcheddol ehangach (W40)

2. Cymorth ailhyfforddi ac uwchsgilio ar gyfer y rheini yn y sectorau carbon uchel, gan ganolbwyntio'n benodol ar drosglwyddo i swyddi gwyrdd, a Diwydiant 4.0 a 5.0 (W41)

# Allbynnau a Deilliannau

Rhaid i fynegiant diddordeb ddynodi'r allbynnau a'r deilliannau a fwriedir y bydd y prosiect yn eu cyflawni. Bydd hyn yn cynnwys disgrifiad o'r allbwn/deilliant a'r targed o ran niferoedd dros oes y prosiect.

Er enghraifft:

Nifer o bobl a gyrhaeddwyd = 100
Nifer o ddigwyddiadau neu weithgareddau a gefnogwyd = 25

Mae'r allbynnau a'r deilliannau ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau buddsoddi wedi cael eu pennu ymlaen llaw gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol a gellir eu gweld yn llawn trwy ddewis o'r isod.

Cymuned a Lle – Allbynnau a Deiliannau

Cynorthwyo Busnesau Lleol – Allbynnau a Deilliannau

Pobl a Sgiliau – Allbynnau a Deilliannau

## Sut gall y cyllid gael ei ddefnyddio?

Gellir gwneud cais am wariant cyfalaf a refeniw. Mae gwariant cyfalaf yn cyfeirio at gyllid a ddefnyddir i gael, adeiladu neu uwchraddio asedau ffisegol. Mae gwariant refeniw yn cyfeirio at gostau trefniadol parhaus sydd eu hangen i redeg gweithgareddau'r prosiect a nodir mewn cais cymeradwy. Er enghraifft:

**Cyfalaf**

- Prynu offer, peiriannau neu asedau eraill
- Gwaith cyfalaf, gan gynnwys adnewyddu adeiladau a mannau agored
- Costau astudiaethau dichonolrwydd neu ymchwil a datblygu sy'n gymwys i'w cyfalafu.

**Refeniw**

- Astudiaethau dichonolrwydd
- Llogi offer, peiriannau neu asedau eraill
- Costau marchnata a chyfieithu
- Ymchwil a datblygu

- Costau ymchwil ac ymgynghoriaeth eraill
- Costau staff, dim ond pan fydd y costau yn ymwneud â chyflawni'r prosiect
- Hyfforddiant
- Teithio a chynhaliaeth yn ymwneud â'r prosiect, gan gynnwys costau gwirfoddolwyr
- TAW na ellir ei adfer
- Llogi lleoliad

Nid yw'r enghreifftiau hyn yn hollgynhwysol.

**Ni ddylai'r costau canlynol gael eu cynnwys mewn ymyrraeth Cronfa Ffyniant Gyffredin:**

- lobïo, adlonni, deisebu neu herio penderfyniadau y telir amdanynt, sy'n golygu defnyddio'r Gronfa i lobïo (trwy gwmni allanol neu staff mewnol) er mwyn cynnal gweithgareddau a fwriadwyd i ddylanwadu neu i geisio dylanwadu ar y Senedd, llywodraeth neu weithgareddau gwleidyddol gan gynnwys derbyn cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin; neu geisio dylanwadu ar gamau deddfwriaethol neu reoleiddiol
- taliadau am weithgareddau o natur bleidiol yn wleidyddol neu grefyddol yn unig
- TAW y gellir ei adhawlio gan CThEF
- rhoddion, neu daliadau am roddion neu gyfraniadau
- dirwyon statudol, dirwyon troseddol neu gosbau
- taliadau am waith neu weithgareddau y mae gan yr awdurdod lleol arweiniol, cyflawnwr y prosiect, y buddiolwr terfynol, neu unrhyw aelod o'u partneriaeth ddyletswydd statudol i'w cyflawni, neu sy'n cael eu hariannu'n llawn gan ffynonellau eraill
- arian wrth gefn a rhwymedigaethau achlysurol
- difidendau
- dyledion drwg, costau yn deillio o ohirio taliadau i gredydwyr, neu ddirwyn cwmni i ben
- treuliau o ran cyfreithia, diswyddo annheg neu iawndal arall
- costau a dynnwyd gan unigolion wrth sefydlu a chyfrannu at gynlluniau pensiwn preifat

Mae’r Alwad Agored yn cael ei gweithredu dan Reolau Cymhorthdal y Deyrnas Gyfunol. Rhaid i bob cais hefyd ystyried sut y bydd yn cyflawni yn unol â rheolaeth cymhorthdal yn ôl cyfarwyddyd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol: https://www.gov.uk/government/collections/subsidy-control-regime

## Rhagor o wybodaeth

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth cysylltwch â ni.

**Trwy e-bost:**

SharedProsperityFund@monmouthshire.gov.uk

**Trwy’r post:**

Cyngor Sir Fynwy - Economi, Cyflogaeth a Sgiliau
Neuadd y Sir
Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA